Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Penllwyn**

**Ysgol Penllwyn – Caban**
**Capel Bangor**
**Aberystwyth**
**SY23 3LP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

17/06/2022

***Llywodraeth Cymru ©  Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Penllwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Penllwyn |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Mehefin 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn cael eu clywed a chaiff pob ymgais i gyfathrebu ganddynt ei gwerthfawrogi. Anogir y plant i siarad ac i fynegi eu barn. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi ymgartrefu oherwydd eu bod wedi ffurfio ymrwymiadau hoffter cadarnhaol gyda'r staff gofal. Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu gweithgareddau chwarae, sydd yn eu cyffroi.

Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac yn rhoi gofal cyson iddynt. Mae'r staff gofal yn darparu amgylchedd magwrol a gofalgar.

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, glân a saff. Mae'r staff gofal wedi nodi a, chyn belled ag sy'n bosibl, wedi dileu risgiau diangen i'r plant. Mae digon o le a chyfleusterau i blant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac mae wedi'i gynnal a'i gadw a'i addurno'n dda. Mae'r dodrefn, yr offer a'r teganau mewn cyflwr da ac o ddyluniad addas ar gyfer anghenion y plant.

Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad ddatganiad o ddiben clir sy'n ddarlun cywir o'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r lleoliad wedi datblygu cyfathrebu ac ymddiriedaeth glir â'r rhieni, gan weithio gyda nhw i nodi anghenion a hoffterau unigol y plant. Mae’r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r partneriaethau yn gryf. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â chwblhau ymarferion tân rheolaidd a sesiynau goruchwylio ac arfarnu i’r staff.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais, ac mae hyn yn dylanwadu ar y gofal a gânt, megis y dewis o ble i chwarae. Mae’r plant yn dewis p’un a ydynt am chwarae  dan do neu i'r tu allan a pha adnoddau maent eu heisiau. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn llwyddiannus, ac mae'r staff yn credu bod eu diddordebau yn bwysig. Maent yn ddigon hyderus i siarad a dweud eu meddwl wrth y staff a ninnau. Mae'r plant, yn llawn balchder, yn trafod gweithgareddau yr oeddent wedi eu gwneud dros y penwythnos. Mae hyn yn rhoi hwb i'w hunan-barch a'u hymdeimlad o gyflawniad.

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus ac mae ganddynt gydberthynas agos â'r staff, sy'n darparu gofal o ansawdd da yn gyson. Mae'r plant yn hapus i fynd at y staff am help a sgwrs, sy'n dangos eu bod yn gyfforddus gyda nhw. Clywsom y plant yn mwynhau canu caneuon gyda'r staff ac ymuno â symudiadau. Mae'r plant yn hyderus ac yn teimlo'n gyfforddus i ofyn am fwy o adnoddau. Clywsom y plant yn gofyn am fwy o baent a ffedog lân. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn; er enghraifft, mae ganddynt ardal bersonol i storio eu cotiau, eu bagiau a'u gwaith.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ag aelodau o’r staff a’r plant eraill. Maent yn adnabod enwau ei gilydd ac yn gweithio gyda'r staff yn hapus wrth symud o un gweithgaredd i'r llall. Mae'r plant yn dechrau rhannu adnoddau. Maent yn cymryd eu tro wrth chwarae – er enghraifft, wrth beintio yn yr ardal grefftau y tu allan, mae'r plant yn rhannu'r paent a'r brwshys. Pan geisiodd gormod o’r plant fynd ati i beintio, roedd y plant eraill yn hapus i aros eu tro. Mae'r plant yn dysgu sut beth yw parchu adnoddau a theganau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi i gadw ar ôl iddynt gael eu defnyddio.

Mae gan y plant ddiddordeb yn eu chwarae ac maent yn ymgysylltu yn llawn ag ef. Mae ganddynt ddiddordeb mewn gweithgareddau megis chwarae ar y beiciau, chwerthin, a gwenu wrth wthio ei gilydd yn chwareus. Mae'r plant yn archwilio'r amgylchedd yn rhydd ac yn helpu eu hunain i adnoddau yn ystod amser chwarae rhydd. Roedd yn bleser gwylio’r plant yn chwarae â’r anifeiliaid saffari bach o’r stori y buont yn gwrando arni, yn trafod eu chwarae, ac yn canolbwyntio am gyfnod wrth iddynt eu trefnu a’u had-drefnu. Fodd bynnag, bu'r plant yn eistedd am gyfnod hir yn ystod y sesiwn ganu a chofrestru ac, o ganlyniad, nid oedd rhai o'r plant yn ymgysylltu a gollwyd eu sylw yn sydyn.

Caiff y plant rai cyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfniadau arferol y lleoliad. Roedd llawer yn paratoi i fynd adref heb fawr o help. Mae'r plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, fel golchi dwylo ar ôl defnyddio'r toiledau. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau ac yn cadw'r teganau yn eu blychau ar ôl eu defnyddio. Mae'r plant yn bwyta cinio'n annibynnol â chyllyll a ffyrc sy'n addas i'w hoedran a chyfnod eu datblygiad. Mae'r plant yn cael eu cefnogi gan y staff gofal lle bo angen.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae’r staff gofal yn cydweithio'n dda i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae’r staff gofal yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol, ac maent wedi adolygu gweithdrefnau'r lleoliad yn unol â'r canllawiau sy'n ymwneud â COVID-19.

Gwelsom y staff gofal yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn annog rhyngweithio cadarnhaol. Mae’r staff gofal yn canmol y plant yn gyson ac yn eu hannog i chwarae a gweithio gyda'i gilydd. Maent yn gwrando ar farn y plant ac yn eu parchu. Clywsom ryngweithio cynnes a charedig rhwng y staff gofal a'r plant. Mae’r staff gofal yn gwrando'n astud ar straeon y plant ac yn datblygu eu dealltwriaeth trwy eu holi’n briodol. Gwelsom fod y staff gofal yn ymateb yn dyner i'r plant; roeddent yn eu cofleidio ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn diwallu eu hanghenion sylfaenol.

Mae’r staff gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gyfer cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn amseroedd byrbryd a chinio ac yn rhoi eu dwylo dros eu cegau pan fyddant yn tagu. Mae trafodaethau â’r staff gofal yn dangos eu bod yn deall y polisi ymddygiad a bod strategaethau rheoli ymddygiad cyson ar waith. Maent yn ymyrryd yn briodol ac yn bwyllog pan fydd y plant yn anghytuno. Mae'r staff gofal yn rheoli rhyngweithiadau mewn modd cynnes, cyfeillgar a thyner. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion ag iaith gadarnhaol ac yn eu hannog i fod yn gwrtais a dweud "os gwelwch yn dda" a "diolch". Fodd bynnag, nid yw pob plentyn yn cael ei oruchwylio'n agos bob amser yn ystod cyfnodau trosglwyddo prysur.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant. Gall y staff gofal siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir sydd angen eu dilyn pe bai ganddynt bryder mewn perthynas ag amddiffyn plant. Maent wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf mewn cymorth cyntaf pediatrig. Mae'r staff gofal yn dilyn gweithdrefnau hylendid bwyd da wrth weini a thrin bwyd. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o alergeddau, er nad oes alergedd gan unrhyw blentyn sy'n mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd. Mae'r staff gofal yn cwblhau rhai ymarferion tân ysbeidiol; fodd bynnag, nid yw'r ymarferion tân yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn gwybod sut i adael y safle yn ddiogel mewn argyfwng.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'n darparu lle diogel a chyfforddus i’r plant ymlacio a dysgu ynddo. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac o dan glo. Mae'r bobl sy'n cynnal y gwasanaeth yn cynnal amgylchedd da i wella profiadau’r plant. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi nodi risgiau ac yn gweithredu i leihau neu ddileu'r rhain. Mae asesiadau risg ar waith ac mae'r staff yn eu dilyn. Mae hyn yn sicrhau bod y staff gofal yn gwybod pa ardaloedd nad ydynt yn hollol ddiogel i'r plant, megis y gegin. Mae'r staff gofal yn cadw rhestr o'r rhai sy'n ymweld â'r lleoliad hefyd.

Mae'r lleoliad yn addas ar gyfer profiadau chwarae a dysgu’r plant, ac mae’r staff gofal yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd hyn, gan gynnig profiadau amrywiol. Mae'r amgylchedd yn olau, yn llachar ac yn awyrog. Mae'r ffenestri a'r drws cefn ar agor i sicrhau awyru digonol. Mae un ardal chwarae fawr â mynediad rhwydd at y toiledau. Mae ardal fawr a diogel i'r plant chwarae yn yr awyr agored ac mae'r plant yn cael dewis rhydd yn rheolaidd pan fyddant yn yr awyr agored.  Mae digon o adnoddau yn yr ardaloedd chwarae a dysgu er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu cynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau yn addas, yn lân ac mewn cyflwr da, gan alluogi’r staff i baratoi gweithgareddau yn hyderus. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad a’r staff gofal yn arddangos posteri Cymraeg lliwgar a phriodol a gwaith celf y plant. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i'r plant. Cedwir y teganau a'r adnoddau o fewn cyrraedd i'r plant mewn cynwysyddion, sydd wedi'u labelu'n bennaf â lluniau o'r cynnwys, gan hybu annibyniaeth y plant wrth iddynt helpu eu hunain i'r eitemau hyn. Mae yna amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau, sy'n cynnwys Stickle Bricks, Lego, blociau, gweithgareddau edafu, cerbydau, deinosoriaid, anifeiliaid fferm, posau, ac offer crefft.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn wybodus am arferion gofal y plant presennol, ac mae hyn yn cael ei osod yn y datganiad o ddiben, sy'n hawdd ei ddeall ac yn gynhwysfawr. Maent yn diweddaru eu polisïau a gweithdrefnau yn ôl yr angen ac yn eu rhannu â phob aelod o staff. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn. Mae tasgau â ffocws yn cael eu cynllunio yn fisol, ac mae hyn yn cynnwys gweithgaredd ar gyfer pob un o'r meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn cynnwys elfen o fyfyrio ar arsylwi a gwerthuso dealltwriaeth y plant a phennu'r camau nesaf.

Mae’r staff gofal yn hapus yn eu swyddi ac yn ymwybodol o'r strwythur rheoli, ac maent yn gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw os oes angen help arnynt. Mae adolygiad ansawdd gofal wedi'i gwblhau ar waith; fodd bynnag, nid yw'n nodi syniadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Mae’r broses o recriwtio staff gofal yn gadarn. Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff gofal a chanfod bod yr holl wiriadau wedi'u gwneud i sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad, nid oeddent yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae hyn oherwydd nad yw'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon i gefnogi’r staff gofal â'u rôl, eu dysgu a'u datblygiad, ac unrhyw broblemau perfformiad a all godi.

Roedd y staff gofal a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn cydweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae'r plant wrth eu boddau â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig. Mae'r person â gofal yn trefnu'r staff gofal yn briodol ac mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer absenoldebau staff. Mae cydberthnasau cadarnhaol yn bodoli gyda'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Gall y rhieni siarad â’r staff am ofal eu plentyn pan fyddant yn dod â'u plant neu'n eu casglu. Dywedodd y bobl sy'n cynnal y lleoliad wrthym eu bod yn gweithio tuag at ailsefydlu nosweithiau rhieni, a gafodd eu gohirio oherwydd COVID-19. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn cadw cofnod o ddigwyddiadau a damweiniau ac yn rhannu'r rhain â'r rhieni.

Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad bartneriaethau cryf a chysylltiadau da gyda'r gymuned ehangach. Eglurwyd eu bod yn ymweld â'r ysgol gynradd leol yn aml, sydd wedi'i lleoli gerllaw'r cylch meithrin. Mae'r plant yn defnyddio tir yr ysgol yn rheolaidd ac yn aml yn ymuno mewn sesiynau ffitrwydd i ddatblygu iechyd a llesiant y plant. Dywedodd y bobl sy'n cynnal y lleoliad wrthym hefyd eu bod wedi ymweld â'r fferm leol gyda'r plant yn ddiweddar.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n drylwyr fel bod pob plentyn yn cael ei gyfrif pan fydd y plant yn mynd yn ôl i’r adeilad

A2. Parhau i ddatblygu’r dull o gynllunio gweithgareddau i gynnwys elfen o fyfyrio ar arsylwi a gwerthuso dealltwriaeth y plant a phennu’r camau nesaf

A3. Sicrhau bod gweithgareddau pwrpasol ac amserol yn cael eu darparu yn unol ag amserlenni a gwaith cynllunio

A4. Nodi a chynnwys syniadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn yr adolygiad ansawdd gofal

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan fod yn rhaid iddo sicrhau bod pob gweithiwr sy'n gofalu am y plant | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n rheolaidd. | |
| 38 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan fod yn rhaid iddo sicrhau (drwy gynnal ymarferion tân ar adegau priodol) bod y plant yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd tân. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/07/2022